

Egwyddorion Froebelaidd

Undod a Chysylltioldeb

Mae popeth yn y bydysawd wedi eu cysylltu. Po fwyaf eich ymwybyddiaeth o'r undod hwn, po ddyfnaf eich dealltwriaeth ohonoch chi eich hun, o eraill, o fyd natur ac o'r byd ehangach. Mae plant yn fodau cyflawn sydd â'u meddyliau, teimladau a gweithredoedd yn perthyn i'w gilydd. Mae plant ifanc yn dysgu mewn ffordd holistaidd, ac ni ddylid dysgu cael ei adranu, gan fod popeth wedi eu cysylltu.



Dysgwyr Ymreolaethol

Mae pob plentyn yn unigryw, a'r hyn y gall plentyn ei wneud, nid yr hyn na all ei wneud, yw man cychwyn dysgu pob plentyn. Mae plant yn dysgu orau trwy wneud pethau drostyn nhw eu hunain a thrwy ddod yn fwy ymwybodol o'u dysgu. Mae addysgwyr Froebelaidd yn parchu plant am yr hyn ydyn nhw ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion. Mae helpu plant i fyfyrto yn nodwedd allweddol o addysg Froebelaidd.

Gwerth Plentynod yn ei rinwedd ei Hun

Nid paratoad yn unig ar gyfer y cam nesaf o ddysgu yw plentynod. Mae dysgu yn cychwyn o'r crud ac yn parhau trwy gydol oes.

Mae Perthynas yn Bwysig

Mae perthynas pob plentyn gyda nhw eu hunain, gyda'u rhieni, eu gofalwyr a'u teulu, a gyda'r gymuned ehangach, yn werthfawr. Mae pob perthynas fel hyn yn hanfodol bwysig yn mywyd plentyn.



Creadigrwydd a Grym Symbolau

Creadigrwydd yw'r modd y mae plant yn cynrychioli eu syniadau eu hunain yn eu ffyrdd eu hunain, â chefnogaeth amgylchedd a phobl feithringar. Wrth i blant ddechrau defnyddio a chreu symbolau, maen nhw'n mynegi eu meddyliau a'u syniadau mewnol ac yn creu ystyr. Dros amser mae myfyrdodau llythrennol o fywyd pob-dydd, cymuned a diwylliant yn troi'n fwy haniaethol a neilltuol.

Pwysigrwydd Hanfodol Chwarae

Mae chwarae yn rhan annatod o'r profiad dynol ac yn helpu plant i gysylltu bydoedd mewnol eu teimladau, syniadau a phrofiadau byw, gan eu dwyn nhw at lefelau newydd o feddwl, teimlo, dychmygu a chreu, yn adnodd i'r dyfodol. Mae plant yn perchnogi eu chwarae. Mae addysg Froebelaidd yn rhoi gwerth ar gyfraniad oedolion sy'n cynnig 'rhyddid gydag arweiniad' i gyfoethogi chwarae fel cyd-destun addysgol.

Ymgysylltu â Byd Natur

Mae profiad a dealltwriaeth o fyd natur ac o'n lle ni ynddo yn nodwedd hanfodol o arfer Froebelaidd. Trwy brofiadau bywyd go iawn, mae plant yn dysgu am y cyberthynas sydd rhwng popeth byw. Mae hyn yn eu helpu nhw i feddwl am gwestynnau mawr am yr amgylchedd, cynaladwyedd a newid hinsawdd.

Addysgwyr Gwybodus a Meithringar

Mae addysgwyr plentynod cynnar sy'n ymroi i'w dysgu nhw eu hunain ac sy'n credu mewn arfer egwyddorol a myfyriol yn agwedd allweddol o'r dull Froebelaidd. Mae addysgwyr Froebelaidd yn hwyluso a chyfeirio yn hytrach na hyfforddi. Maen nhw'n darparu cyfleoedd cyfoethog a profiadau bywyd go iawn ac yn arsylwi'n ofalus ar blant, gan gefnogi ac ymestyn eu diddordebau trwy 'rhyddid gydag arweiniad'.

